# ballet cymru



# PECYN RECRIWTIO

# Swydd Wag

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | **Rheolwr Technegol** |
| **Adran:** | **Cynhyrchu** |
| **Cyflog:** | **£850 yr wythnos** |
| **Y Dyddiad Cau ar gyfer Gwneud Cais:** | **Dydd Llun, 5 Hydref 2026** |
| **i:** | **Dydd Sul, 13 Rhagfyr 2026** |
| | **10 x wythnos llawn** |

# WRTH GALON CENEDL GREADIGOL

**Mae BALLET CYMRU yn gwmni bale proffesiynol arobryn. Mae'n cynhyrchu perfformiadau dawns proffesiynol a gwreiddiol sy'n mynd ar deithiau cenedlaethol ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig.**

**Mae'r cwmni wedi ymrwymo i gynhwysiant ac arloesedd ym myd dawns a bale clasurol, gan geisio ffyrdd gwreiddiol a dychmygus o ymgysylltu â phob oed a gallu, a hynny'n lleol yng Nghasnewydd, ei dref enedigol, a ledled y wlad.**

**Ochr yn ochr â'i weithgarwch teithio, mae Ballet Cymru yn cynnig amrywiaeth o raglenni allgymorth hygyrch ar gyfer pobl ifanc a chymunedau amrywiol fel y gallant ymgysylltu â dawns hyd at lefel broffesiynol. Mae'r sefydliad hefyd yn ymwneud â gwaith arloesol mewn ymarfer cynhwysol.**

**Mae Ballet Cymru yn elusen gofrestredig dan yr enw Gwent Ballet Theatre Limited, ac yn cael ei ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru.**

**Mae Ballet Cymru yn falch iawn o gael ei leoli yn Nhŷ-du, Casnewydd. Mae ein stiwdios dawns pwrpasol a phencadlys y cwmni wedi'u lleoli lai na thair milltir o Ganol y Ddinas yn ardal fusnes a chymuned ffyniannus Tŷ-du, wrth ymyl Bragdy Tiny Rebel.**

# Cyfle Gwaith

| | |
|---|---|
| **Cyflog:** | £850 yr wythnos |
| **Pensiwn:** | Cynllun pensiwn y cwmni |
| **Hawl i Wyliau:** | wedi'i ddyrannu o fewn y cyfnod contract |
| **Lleoliad:** | Ballet Cymru, Casnewydd, NP10 9FQ |
| **Cyfnod:** | Llawn-amser; bydd oriau gwaith anghymdeithasol yn ofynnol. 44 awr yr wythnos ar gyfartaledd dros gyfnod y contract, wythnos waith 6 diwrnod. |
| **Goramser:** | 10 x wythnos llawn o ddydd Llun 5 Hydref i ddydd Sul 13 Rhagfyr 2026. |
| **Yn atebol i'r:** | Cyfarwyddwr Artistig/Gweinyddwr |
| **Buddion a hawliau:** | Darperir llety a £34 Per Diem ar gyfer aros dros nos i ffwrdd o Gasnewydd.<br>Lwfans adleoli yn ôl disgresiwn o £75 yr wythnos am hyd y prosiect, ynghyd â lwfansau yn ôl disgresiwn. |
| **Y Dyddiad Cau ar gyfer Gwneud Cais:** | **12 canol dydd, dydd Llun 13 Gorffennaf 2026** |

Bydd y ceisiadau a gyflwynir yn cael eu hadolygu a bydd rhestr fer yn cael ei llunio ar ôl iddynt ddod i law. Cynhelir y cyfweliadau yn yr wythnos sy'n dechrau ar yr 13 Gorffennaf yn adeilad Ballet Cymru.

# Proffil y Rôl

**Cwmpas:**

Arwain y tîm trwy ddarparu goleuadau a sain o'r safon uchaf yn achos pob cynhyrchiad, digwyddiad, a phrosiect dirprwyedig, a hynny mewn modd effeithlon sy'n hybu amgylchedd gwaith diogel, iach a chynaliadwy, a diwylliant cadarnhaol o ymgysylltu.

**Cyfrifoldebau Allweddol:**

**Cynllunio**

- Mewn cytundeb ag Uwch-staff, llunio a rheoli amserlen ar gyfer pob tymor teithio gan gynnwys yr arosiadau dros nos, y gwaith o osod y cyfarpar teithiol, amseroedd y perfformiadau a'r gwaith o ddadosod, a milltiredd gan sicrhau y cedwir at Reoliadau Iechyd a Diogelwch, Tegwch, a TGCh.
- Trefnu a mynychu'r Cyfarfodydd Cynhyrchu, Cyfarfodydd yn ymwneud â'r Lleoliad, a'r Ymarferion angenrheidiol i gynorthwyo i lunio a rhannu gwybodaeth am Fanylebau Technegol cynyrchiadau Ballet Cymru â theatrau, Staff Addysg, a Staff Artistig er mwyn helpu i gynllunio teithiau, digwyddiadau addysg, digwyddiadau Cyfeillion y Cwmni, a digwyddiadau eraill yn ôl yr angen.
- Bod yn gyfrifol am benodi a bod yn rheolwr llinell ar aelodau o staff cynhyrchu yn ôl anghenion pob tymor teithio.
- Bod yn eiriolwr dros gynaliadwyedd a chadw cofnod cyfredol o'r holl wybodaeth am gynaliadwyedd y cynyrchiadau ac adrodd yn ôl i'r tîm staff, yr arianwyr, a llyfr gwyrdd y theatr.

**Cynyrchiadau a Theithio**

- Rheoli'n ddiogel a bod yn gyfrifol am osod y goleuadau, y sain, y systemau fideo, a'r set, sy'n cynnwys rigio'n ddiogel a ffocysu'r cyfarpar, gan gynnwys gosod a dadosod y cyfarpar teithiol.
- Bod yn gyfrifol am y gwaith o weithredu a rhaglennu unrhyw oleuadau, sain, a fideo ar gyfer cynyrchiadau gan gynnwys Perfformiadau Anffurfiol, Perfformiadau Codi'r Llen, cynyrchiadau awyr agored, sesiynau Rhannu Addysg, a Sioeau Stiwdio.
- Bod yn gyfrifol am y cerbyd technegol a rhannu'r gwaith o'i yrru o brif safle'r cwmni i leoliadau a rhwng lleoliadau, gan sicrhau bod yr holl gyfarpar a'r set yn briodol i'r cynhyrchiad, a bod cyfrif amdanynt.
- Cymhwyso eich sgiliau trydanol ymarferol mewn perthynas â'r llwyfan, eich gwybodaeth, a’ch profiad i gynorthwyo’r Tîm i sicrhau bod cynyrchiadau’n cael eu cyflwyno i’r safon uchaf posibl, a bod gweledigaeth greadigol ac artistig y tîm cynhyrchu yn cael ei hatgynhyrchu’n gywir ac yn gyson.
- Sicrhau bod yr ardaloedd a ddefnyddir gan yr Adran Dechnegol yn cael eu cadw'n lân ac yn daclus, a bod y cyfarpar i gyd yn cael ei storio, ei gynnal, a'i gadw'n gywir.

**Stiwdios Ballet Cymru**

- Ymgymryd â rôl arweiniol i ddatblygu’r gofodau stiwdio a mannau eraill yn Ballet Cymru iddynt fod yn ofod perfformio ar raddfa fach.
- Gweithio gyda Rheolwr y Lleoliad i helpu i reoli, cynnal, a datblygu pob gofod yn Ballet Cymru. Rheoli a chynnal a chadw cyfarpar a deunyddiau a'u mannau storio.

**Gwaith Tîm**

- Cefnogi mentrau a gynlluniwyd i annog y broses o recriwtio a datblygu gweithlu sy'n adlewyrchu'r cymunedau yr ydym yn byw ac yn perfformio ynddynt.
- Arwain, dirprwyo, a bod yn rheolwr llinell ar aelodau o staff yr Adran Dechnegol a gweithwyr llawrydd.
- Mynychu cyfarfodydd y diwydiant yn ôl y gofyn er mwyn bod yn ymwybodol o newyddion a chanllawiau diweddaraf y cwmni a'r sector diwydiant.

**Gweinyddiaeth a Chyllid**

- Gweithio gyda Gweinyddwr y Cwmni i gynorthwyo'r gwaith o goladu taflenni amser, cofnodion gwyliau, a data eraill sy'n ymwneud â staffio neu gynyrchiadau.
- Gyda'r Tîm Technegol, sicrhau bod y Cerbydau Technegol yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac y gofelir amdanynt.
- Mewn cydweithrediad â Gweinyddwr Ballet Cymru, cadw cofnod o'r holl arian a werir ar danwydd.

**Iechyd a Diogelwch**

- Hybu diwylliant cadarnhaol o ddiogelwch yn yr adran cynhyrchu, gan gadw at bolisi a rheolau Iechyd a Diogelwch y Cwmni, rheoliadau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, a chanllawiau'r diwydiant bob amser.
- Llunio a dilyn Asesiadau Risg ar gyfer holl weithgarwch y cynyrchiadau.
- Llunio a dosbarthu Atodiadau Mynediad ac Atodiadau Gwyrdd pan fo angen.
- Cynorthwyo'r gwaith o sicrhau lefelau uchel o ran diogelwch y cyhoedd a gofal rhanddeiliaid, a gweithio mewn modd sy'n hybu diwylliant o ddiogelwch.

**Cyffredinol**

- Ymddwyn yn unol â'n gwerthoedd.
- Cynnal cyfrinachedd a dilyn canllawiau diogelu data a chanllawiau cysylltiedig lle bo hynny'n briodol.
- Sicrhau cydymffurfedd â'n polisïau a'n gweithdrefnau bob amser.
- Agwedd gadarnhaol at ddod o hyd i atebion i broblemau.
- Y gallu i weithio'n fanwl gywir dan bwysau.
- Y gallu i feddwl yn greadigol.

Sylwch nad yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth, ac efallai y bydd dyletswyddau eraill yn cael eu hychwanegu ati mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Artistig.

# Manyleb y Person

**Hanfodol**

- Profiad o weithio fel Rheolwr Technegol Proffesiynol
- Rhaid i bob ymgeisydd fod yn gymwys i weithio yn y DU
- Trwydded Yrru lawn lân
- Gwybodaeth am Feddalwedd Eos Family ETC
- Gwybodaeth am QLab 4 a QLab 5
- Sgiliau rhagorol o ran meddalwedd MS365
- Y gallu i godi, a chario, a gweithio ar uchder
- Y gallu i reoli perthnasoedd â rhanddeiliaid mewnol ac allanol allweddol
- Gwybodaeth am systemau goleuo a phrofiad ohonynt
- Gwybodaeth ymarferol am arferion Iechyd a Diogelwch cyfredol sy'n berthnasol i'r rôl
- Gwybodaeth am Arferion Teithio Cynaliadwy a Llyfr Gwyrdd y Theatr.

**Dymunol**

- Y gallu i siarad Cymraeg/ysgrifennu yn Gymraeg
- Profiad o Deithiau ar Raddfa Ganolig/Fawr
- Profiad o yrru Fan XLWB
- Gwybodaeth am weithio mewn modd cynhwysol, sy'n cynnwys creu ardaloedd cynhwysol
- Cymhwyster Iechyd a Diogelwch cydnabyddedig (IOSH/NEBOSH).

# Gwneud Cais

**I wneud cais, anfonwch eich CV, ynghyd â llythyr eglurhaol sy'n nodi eich sgiliau a'ch profiad ar gyfer y rôl, a hynny trwy e-bost at gweinyddwr Ballet Cymru, Jenny Carter jennycarter@ballet.cymru**

**Y Dyddiad Cau ar gyfer Gwneud Cais:** **12 canol dydd, dydd Llun 13 Gorffennaf 2026**

Bydd y ceisiadau a gyflwynir yn cael eu hadolygu a bydd rhestr fer yn cael ei llunio ar ôl iddynt ddod i law.

**Cynhelir y cyfweliadau yn yr wythnos sy'n dechrau ar yr 13 Gorffennaf 2026, yn adeilad Ballet Cymru, Casnewydd NP10 9FQ.**

**Dyddiad Dechrau** **Dydd Llun 5 Hydref 2026**

Hanfodol: Rhaid i bob ymgeisydd fod yn gymwys i weithio yn y DU

Rydym yn gofyn i bob ymgeisydd lenwi Ffurflen Monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i'n helpu i fonitro cyrhaeddiad ein hysbysebion swyddi. Rydym yn arbennig o awyddus i glywed gan ymgeiswyr anabl ac ymgeiswyr y Mwyafrif Byd-eang.

## Ffurflen Monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2026

Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw anghenion o ran mynediad.

Mae'r Pecyn Swydd hwn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae Ballet Cymru yn Elusen Gofrestredig dan yr enw Gwent Ballet Theatre Limited.
Rhif Elusen: 1000855

**Noddir Ballet Cymru gan**